WG35-5. 19

# HYMNAU I'W CANU

YN

# ANGLADD DR. IDRIS DAVIES,

## YSTRAD,

YN UNOL A'I DDYMUNIAD,

DYDD LLUN, IONAWR YR 2il, 1888.

### Ton—Yr Hen Ganfed.

PAM cara i'r byd a'i wagedd mwy ?
Hyd angau'n brin y deuant hwy ;
Gwell imi garu'r Ffrynd a ddaw
Yn angau 'maflyd yn fy llaw.

### Ton—St. Garmon.

GWEL uwchlaw cymylau amser,
O! fy enaid, gwel y tir
Lle mae'r awel fyth yn dyner
Lle mae'r wybren fyth yn glir ;
Hapus dyrfa
Sydd yn nofio yn ei hedd.

### Ton—Cyfamod.

O FRYNIAU Caersalem ceir gweled
Holl daith yr anialwch i gyd ,
Pryd hyn y daw troion yr yrfa
Yn felus i lanw ein bryd ;
Cawn edrych ar stormydd, ac ofnau,
Ac angau dychrynllyd, a'r bedd,
A ninau'n ddiangol o'u cyraedd,
Yn nofio mewn cariad a hedd.

### Ton—Eifionydd.

COFIA, f'enaid, cyn it' dreulio
D' oriau gwerthfawr yn y byd,
Cyn it' hedeg ffwrdd oddi yma,
P' un a gest ti 'r trysor drud ?
Yn mha ardal bydd dy lety ?
Fath bryd hyny fydd dy wedd ?
P' un ai llawen ai cystuddiol
Fyddi 'r ochor draw i'r bedd ?

Mae 'nghyfeillion wedi myned
Draw yn lluoedd o fy mlaen,
Rhai fu'n teithio dyffryn Bacca
Gyda mi i Salem lan ;
Yn y dyffryn tywyll, garw,
Ffydd i'r lan a'u daliodd hwy ;
Mae'r addewid lawn i minau ;
Pa'm yr ofna'm henaid mwy ?

### Ton—Alexander.

YN y dyfroedd mawr a'r tonau
Nid oes neb a ddeil fy mhen,
Ond fy anwyl Briod Iesu,
'Rhwn fu farw ar y pren ;
Cyfaill yw yn afon angeu,
Ddeil fy mhen i'n uwch na'r don,
Golwg arno wna i mi ganu
Yn yr afon ddofn hon.

### Ton—Babel.

BYDD myrdd o ryfeddodau
Ar doriad boreu wawr,
Pan ddelo plant y tonau
Yn iach o'r cystudd mawr ;
Oll yn eu gynau gwynion,
Ac ar eu newydd wedd,
Yn debyg idd eu Harglwydd
Yn dod i'r lan o'r bedd.

X205307883

W. 4923